

TECHNOLEG GWYBODAETH

Amser: 1 awr a hanner

Atebwch **DDAU** gwestiwn. 50 marc fydd gwerth pob cwestiwn.

1

- a) Esboniwch y termau Rhyngryd a Mewnryd a'r gwahaniaethau rhyngddynt. [8 marc]
- b) Awgrymwch ym mha ffyrdd y gallai cwmni ddefnyddio Mewnryd, a pham y byddai o bosib yn defnyddio Mewnryd yn hytrach na dull cyfathrebu arall. [12 marc]
- c) Mae llawer o gwmnïau yn defnyddio fideo-gynadledda at ddibenion amrywiol. Rhestrwch dair ffordd bosibl o ddefnyddio fideo-gynadledda, a thrafod manteision ac anfanteision fideo-gynadledda yn y gweithle. [12 marc]
- d) Mae eich rheolwr llinell yn gofyn i chi a ddylai eich cwmni storio'i ffeiliau 'yn y cwmwl' yn hytrach nag ar weinydd ffeiliau'r cwmni. Disgrifiwch fanteision ac anfanteision y ddau ddull storio hyn.

Dylai eich ateb roi sylw i ddiogelwch data a hygyrchedd data, yn ogystal â'r pynciau eraill amrywiol sy'n berthnasol yn eich barn chi.

[18 marc]

2

- a) Cymharwch a chyferbynnu cyfres Google o 'offer swyddfa' ag offer mwy traddodiadol megis Microsoft Office neu LibreOffice. Dylai eich ateb roi sylw i ddiogelwch data, nodweddion gweithredu a rhannu data, yn ogystal ag unrhyw bynciau eraill sy'n berthnasol yn eich barn chi. [20 marc]
- c) Trafodwch sut mae taenlenni yn golygu bod defnyddwyr yn gallu prosesu data (yn hytrach na storio rhestrau o ddata yn unig)? Pa fanteision y mae hyn yn eu cynnig i ddefnyddiwr? [12 marc]
- c) Beth yw manteision ac anfanteision dosbarthu dogfennau ar ffurf PDF yn hytrach nag ar fformatau y gellir eu golygu, megis DOCX, ODP, ayyb? [18 marc]

... parhad

3)

a) Enwch o leiaf dair system weithredu wahanol (a dim mwy nag un gan unrhyw un cwmni). Disgrifiwch ddiben system weithredu.

[6 marc]

b) Yn y bôn, mae cyfrifiadur yn gweithredu ar y digidau deuol 0 ac 1. Felly mae'n rhaid i unrhyw nod (llythyren, rhif, ayyb) gael ei amgodio fel rhif deuol. Yn ASCII, mae gan y llythyren D y gwerth degol 27. Rhowch ei werth:

i) Yn ddeuol

ii) Yn hecsadegol

Dylech ddangos sut y cyrhaeddwch eich atebion.

[8 marc]

c) Trosglwyddwch y rhif deuol 16-did 01010100 11011001 i rif:

i) Hecsadegol

ii) Degol

Dylech ddangos sut y cyrhaeddwch eich atebion.

[10 marc]

d) Esboniwch y termau AND, OR, NOT ac XOR. Rhowch enghreifftiau lle y gallai pob un gael ei ddefnyddio.

[8 marc]

e) Lluniwch dabl rhesymeg cyflawn sy'n disgrifio:

A AND (NOT B OR C)

[8 marc]

f) Esboniwch sut y mae'r bonau rhif gwahanol a ddefnyddir ym maes TG yn effeithio ar ddefnyddwyr, o safbwynt meintiau storio offer TG megis gyriannau caled a ffonau symudol.

[10 marc]